# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-01-10 (p1): 11 Ionawr 2010**

### Tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai i bwyllgor Cynaliadwyedd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSau) drafft Llywodraeth y DU

### Cyflwyniad

1. Gwnaeth Deddf Gynllunio 2008 ddarpariaeth i ddiwygio'r system Gynllunio o ran prosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd a gynhelir gan Lywodraeth y DU.

2. O 01 Ebrill 2010, gweinyddir caniatâd datblygu ar gyfer Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd (NSIPs) gan gorff newydd, sef y Comisiwn Cynllunio Seilwaith (y Comisiwn), y bydd ganddo'r pwer i roi caniatadau ategol yn Lloegr er mwyn hwyluso NSIPs.

3. Yng Nghymru, bydd y gwaith o benderfynu ar ganiatadau ategol yn parhau i gael ei gyflawni gan y corff priodol a ddynodwyd cyn Deddf 2008.

4. Bydd Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSs) yn gosod y cyd-destun polisi a'r cyfiawnhad dros brosiectau seilwaith mawr. Mae Llywodraeth y DU yn cynnig y bydd 12 NPS, yn cwmpasu seilwaith mawr o ran ynni, trafnidiaeth, gwastraff, dwr a dwr gwastraff. Yr NPSs fydd y brif ystyriaeth i'r Comisiwn wrth iddo wneud penderfyniadau ar geisiadau am ganiatâd datblygu.

5. Ar 9$^{FED}$ Tachwedd, cyhoeddodd yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd (DECC) ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar ran Llywodraeth y DU ar y chwe Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft ar gyfer seilwaith ynni:

- Y Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol drafft ar gyfer Ynni (EN-1)
- Y Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft ar gyfer Seilwaith Cynhyrchu Trydan Tanwydd Ffosil (EN-2)
- Y Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft ar gyfer Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3)
- Y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Cyflenwi Nwy a Phibellau Nwy ac Olew (EN-4)
- Y Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft ar gyfer Seilwaith Rhwydweithiau Trydan (EN-5)
- Y Datganiad Polisi Cenedlaethol drafft ar gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear (EN-6)

6. Mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd yn ystyried cynnwys technegol manwl y pecyn ymgynghori gyda Chyrff perthnasol a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad megis Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae ymateb drafft i ymgynghoriad Llywodraeth y DU wrthi'n cael ei baratoi i Gabinet Llywodraeth y Cynulliad ei ystyried, cyn terfyn amser yr ymgynghoriad ar 22 Chwefror.

### Pwerau caniatâd ynni

7. Mae polisi ynni presennol yn fater a gadwyd yn ôl yn bennaf. Mae Atodiad 1 i'r papur hwn yn nodi'r fframwaith caniatâd cyfredol ar gyfer rhoi caniatadau ynni mewn perthynas â Chymru.

8. O fis Ebrill 2010, bydd caniatadau a roddir yng Nghymru fel arfer yn fater i'r Pwyllgor Cynllunio Seilwaith annibynnol benderfynu arno ar gyfer prosiectau gorsafoedd ynni mawr (mwy na 50MW ar y tir a 100MW ar y môr) a seilwaith ynni mawr (gan gynnwys pibellau nwy a'r grid trydan), ond nid terfynfeydd nwy ar y tir.

9. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn y dylai pwerau gweithredol i roi caniatâd ar gyfer gorsafoedd ynni mawr o dan Adran 36 (a36) o'r Ddeddf Trydan fod yn fater i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru

10. Wrth barhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i drosglwyddo pwerau caniatâd ar gyfer seilwaith mawr i Weinidogion Cymru, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'n gyffredinol nodau polisi'r broses NPS, i ddarparu system gynllunio fwy effeithlon, tryloyw a hygyrch.

11. Mae Llywodraeth y Cynulliad am sicrhau bod canllawiau polisi perthnasol yng Nghymru, gan gynnwys canllawiau cynllunio fel TAN 8 a TAN 12 yn cael eu hadlewyrchu yn yr NPSs terfynol i ddarparu fframwaith addas i'r Comisiwn wneud penderfyniadau am geisiadau ar gyfer caniatâd datblygu ar gyfer seilwaith ynni cenedlaethol ei arwyddocâd yng Nghymru.

12. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried ei bod yn hanfodol sicrhau bod yr NPSs terfynol yn adlewyrchu rôl rheoleiddwyr amgylcheddol wrth sicrhau bod yr holl ofynion caniatáu amgylcheddol perthnasol yn cael eu bodloni, a cheisio annog datblygwyr i gynnal trafodaethau cynnar gyda rheoleiddwyr, ar y cam cyn gwneud cais neu'n gynt na hynny.

### NPS Ynni Cyffredinol (EN-1)

13. Mae'r NPS Ynni Cyffredinol drafft (EN-1) yn amlinellu'r cyd-destun polisi ar gyfer datblygu seilwaith cenedlaethol ei arwyddocad sy'n adlewyrchu cynllun pontio i garbon isel y DU, y strategaeth genedlaethol ar gyfer hinsawdd ac ynni sy'n nodi cynllun pontio i garbon isel y DU hyd at 2020.

14. Bydd Datganiad Polisi Ynni Carbon Isel i Gymru Llywodraeth Cynulliad Cymru, a gaiff ei gyhoeddi ar ddechrau 2010, yn nodi, yng nghyd-destun Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned a strategaeth newid yn yr hinsawdd gyffredinol Llywodraeth y Cynulliad, y camau a

gymerir i gyflymu'r broses o bontio i economi effeithlon, carbon isel yng Nghymru.

15. Mae pwyntiau sylfaenol y cytunir arnynt rhwng polisi ynni Cymru a'r DU o ran yr angen i gyflawni ynni fforddiadwy, diogel, carbon isel i'n poblogaeth, fodd bynnag, mae gwahaniaethau sylweddol o hyd o ran datganoli pwerau caniatáu ynni a rôl cynhyrchu ynni niwclear o ran y mathau gwahanol o ynni.

### NPSs ynni technoleg-benodol (EN 2-6)

16. Sail yr NPS ynni drafft cyffredinol yw NPSs technoleg-benodol drafft sy'n rhoi gwybodaeth ategol am yr ystyriaeth o fathau penodol o seilwaith.

17. Yn arbennig, mae'r NPS drafft (EN-2) ar gyfer seilwaith sy'n cynhyrchu trydan tanwydd ffosil yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i ddal a storio carbon drwy gefnogi'r gofyniad i bob safle ymlosgi newydd a all gynhyrchu dros 300MW fod yn barod i ddal carbon. Mae'r NPS hefyd yn rhoi canllawiau ar ystyriaethau o ran allyriadau, yr effaith ar y dirwedd a'r effaith weledol, rheoli gweddillion ac adnoddau ansawdd dwr.

18. Mae'r NPS Niwclear drafft (EN-6) yn wahanol i'r NPSs ynni technoleg-benodol drafft eraill gan ei fod hefyd yn rhestru safleoedd y mae Llywodraeth y DU wedi barnu eu bod o bosibl yn addas ar gyfer safleoedd ynni niwclear newydd erbyn 2025. Y rhestr o safleoedd yn yr NPS Niwclear drafft yw'r allbwn o broses Asesiad Lleoli Strategol (SSA) y Llywodraeth ac mae'n cynnwys safleoedd a gynigir ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd yn Wylfa ar Ynys Môn, Oldbury a Hinkley Point ar Aber Hafren yn agos i Dde Cymru.

19. Mae Llywodraeth y Cynulliad o hyd o'r farn bod y diddordeb mawr mewn manteisio i'r eithaf ar botensial enfawr ynni adnewyddadwy yn lleihau'r angen am ffurfiau eraill, mwy peryglus o ynni carbon isel ac yn dileu'r angen am orsafoedd ynni niwclear newydd.

20. Llywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol am reoli gwastraff ymbelydrol. Mae Llywodraeth y Cynulliad am sicrhau bod ystyriaeth gyhoeddus ddigonol o'r materion sy'n ymwneud â rheoli gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd ac mae'n cefnogi galwadau i gynnal archwiliad cyhoeddus o'r broses gyfiawnhau ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd yn arbennig o ran rheoli gwastraff ymbelydrol.

21. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i chwilio am y cyfle gorau i gynnwys y cyhoedd mewn trafodaethau ar orsafoedd ynni niwclear newydd yn enwedig y rhai y cynigir eu lleoli yng Nghymru neu'n agos at Gymru.

22. Bydd Datganiad Polisi Ynni Carbon Isel Llywodraeth y Cynulliad yn amlygu'r potensial yng Nghymru i gynhyrchu dros ddwywaith cymaint o drydan adnewyddadwy ag y defnyddiwn fel gwlad erbyn 2025, gyda tua 40% o hyn yn deillio o ffynonellau ar y môr. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyhoeddi NSP Morol maes o law. O ystyried potensial Cymru ar gyfer ynni morol hoffai Llywodraeth y Cynulliad weld yr NPS Morol a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol ategol ar gyfer dyfroedd morol arfordirol yn cael eu datblygu ar unwaith.

### Proses y Comisiwn Cynllunio Seilwaith (y Comisiwn) a Chomisiynwyr

23. Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried penodi Comisiynydd/Comisiynwyr y Comisiwn fel Comisiynydd/Comisiynwyr o Gymru maes o law i ystyried ceisiadau mewn perthynas â Chymru.

24. Mae proses gwneud cais y Comisiwn yn cynnwys cyfres o gamau, gan gynnwys cynnal ymgynghoriad cyn gwneud cais manwl, a chynnal gwaith ymgysylltu â'r gymuned, y mae'n rhaid i'r ymgeisydd eu gwneud. Mae Deddf Gynllunio 2008 yn darparu i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Corff Cynllunio Rhanbarthol (RPB) perthnasol fod yn ymgynghoreion.

25. Gwahoddir awdurdodau cynllunio lleol i baratoi adroddiad effaith leol sy'n amlinellu'r materion lleol sydd ynghlwm wrth y datblygiad arfaethedig yn yr un modd ac y maent yn darparu asesiad ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol ar hyn o bryd.

26. Y prif ddull o archwilio cais fydd ystyried cynrychioliadau ysgrifenedig, fodd bynnag gall y Comisiwn gynnull gwrandawiadau sy'n ymwneud â'r materion, os yw'n ystyried hynny'n briodol. Gall unrhyw barti fynnu cael gwrandawiad agored. Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Comisiwn i ganiatáu gwrandawiad o'r fath ond cyfyngir y materion a godir i faterion polisi.

27. Bydd y Comisiwn yn gallu derbyn ceisiadau gan y sector ynni a'r sector trafnidiaeth o 1 Mawrth 2010 p'un a yw'r NPS perthnasol wedi'i ddynodi ai peidio. Os na fydd yr NPS dynodedig perthnasol ar gael pan fydd cais arbennig yn cyrraedd y cam penderfynu, byddai'r Comisiwn yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol.

### Caniatadau Ategol a Chysylltiedig

28. Mae'r NPSs yn gosod y cyd-destun ar gyfer gweithredu'r Comisiwn a'i rôl yng Nghymru, y dylaid ei chyfyngu i feysydd cymhwysedd nas datganolir. Mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi'r ystod o ganiatadau y penderfynir arnynt yng Nghymru ar hyn o bryd. Caiff y caniatadau ategol hyn, sy'n cynnwys materion fel caniatadau adeilad rhestredig a hawliau tramwy cyhoeddus, eu cynnwys ar flaen is-ddeddfwriaeth i nodi terfynau pwerau'r Comisiwn yng Nghymru yn fwy eglur. Serch hynny, mae Deddf Gynllunio 2008 yn rhoi pwerau eang i'r Comisiwn y gellir eu defnyddio i benderfynu ar geisiadau a ddaw ger ei fron.

### Craffu seneddol

29. Yn ogystal â'r ymarfer ymgynghori cyhoeddus, bydd yr NPSs Drafft yn destun proses i graffu Seneddol. Mae'r Ddeddf Gynllunio yn ei

gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth osod pob NPS drafft gerbron y Senedd, ac i ymateb i argymhellion Pwyllgor o'r naill Dy neu gynnig gan y naill Dy a wneir o fewn cyfnod penodol.

30. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo, pan fydd y Pwyllgor Dethol yn argymell y dylid cynnal trafodaeth ar NPS drafft, y bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod amser ar gael ar gyfer hyn yn y ddau Dy, yn ddelfrydol o fewn chwe wythnos i adroddiad y Pwyllgor Dethol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi'r broses o Graffu'n Seneddol ar NPSau

31. Er bod y Pwyllgor Dethol ond yn debygol o allu ystyried ymatebion ymgynghori a geir gan y Llywodraeth cyn 15 Ionawr 2010, bydd ymgynghoriad y Llywodraeth ar agor tan 22 Chwefror 2010.

### Digwyddiadau Ymgynghori

32. Bydd chwe digwyddiad ymgynghori cyhoeddus ar yr NPS drafft ar gyfer seilwaith ynni. Cynhelir un yng Nghaerdydd ar 20 Ionawr. Nod y digwyddiadau hyn yw codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad, rhoi gwybod i bobl sut y gallant ymateb, galluogi pobl i ddeall lle'r ymgynghoriad hwn yn y broses gyffredinol ac ateb unrhyw gwestiwn o ran yr ymgynghoriad. Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd fydd yn cynnal y digwyddiadau hyn. Fodd bynnag, bydd cynrychiolwyr o'r Comisiwn a Chymorth Cynllunio hefyd yn bresennol i ateb cwestiynau a rhoi cyngor cynllunio diduedd.

33. Yn ogystal â hyn, cynhelir cyfres o ddigwyddiadau lleol yn y cymunedau lleol ger y 10 safle niwclear rhestredig. Cynhelir arddangosfa leol am dridiau ger pob safle yn rhoi gwybodaeth am yr NPS Niwclear drafft a'r asesiad o bob safle. Bydd yr arddangosiadau hyn yn:

- egluro diben yr NPS Niwclear drafft;
- rhoi eglurhad o unrhyw faterion a godwyd gan yr NPS Niwclear drafft ac NPSs ynni eraill;
- rhoi cymorth a chyngor i'r rhai sydd am ymateb i'r ymgynghoriad.
- Cynhelir digwyddiad yn Wylfa rhwng 7-9 Ionawr. O ran y ddau gynnig niwclear ger ffin Cymru, cynhaliwyd digwyddiad yn Hinkley Point rhwng 19-21 Tachwedd ac mae un wedi'i drefnu ar gyfer Oldbury rhwng 4-6 Chwefror.

34. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi rhagor o arian ar gyfer Cymorth Cynllunio yn Lloegr i helpu gyda'r gwaith o ledaenu gwybodaeth i'r cyhoedd. Yn yr un modd, nid oes trefniadau a ariennir yn ganolog wedi'u sefydlu ar gyfer Cymorth Cynllunio Cymru. Felly mae swyddogion y Cynulliad wrthi'n trafod rôl Cymorth Cynllunio Cymru/Cymorth Cynllunio Lloegr gyda'r SLA o ran gwaith sy'n ymwneud â'r Comisiwn yng Nghymru.

35. Darperir copi o Drywydd y Comisiwn, sy'n rhoi gwybodaeth am y camau allweddol yn y broses ac amserlen NPS, yn Atodiad B.